



Dinas a Sir Abertawe

**Cofnodion Cyfarfod Grŵp Llywio Partneriaeth
AoHNE Gŵyr**

O bell drwy Microsoft Teams

Dydd Llun, 6 Rhagfyr 2021 am 2.00 pm

Yn Bresennol: Y Cyngorydd P Lloyd (Cadeirydd) fu'n llywyddu

Y Cynghorwyr

M C Child

P R Hood-Williams

L James

M Thomas

Aelodau'r Grŵp Llywio

J France

S Heard

G Howe

P Jenkins

H Osborn

B Parry

P Thornton

Swyddog(ion)

Chris Lindley

Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr

Mike Scott

Swyddog AoHNE Gŵyr

Jeremy Parkhouse

Swyddog Gwasanaethau Democraidd

Deb Hill

Arweinydd y Tîm Cadwraeth Natur

Ruth Henderson

Uwch-swyddog Cynllunio

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyngorydd(wyr): A H Stevens

Aelodau o'r Grŵp Llywio(wyr): R Button a/ac D P Tucker

19 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côt Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

20 Cofnodion.

Penderfynwyd cymeradwyo Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Llywio a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2021 fel cofnod cywir.

Nodwyd bod Gweithgor Pwysau Twristiaeth ar AoHNE Gŵyr wedi cyfarfod ar gyfer trafodaethau rhagarweiniol ar 22 Tachwedd 2021. Byddai Swyddogion yn cysylltu â rhanddeiliaid i ddarparu enghreifftiau ar gyfer cofnod gweithredu a byddai'r gweithgor yn cyfarfod i drafod y canfyddiadau yn y flwyddyn newydd.

21 Digwyddiadau i dorf o gyfranogwyr.

Cyflwynodd Chris Lindley, Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr, adroddiad a ymatebodd i'r pryderon blaenorol a godwyd gan y Grŵp Llywio ynghylch effeithiau posib digwyddiadau cyfranogi torfol ar AoHNE Gŵyr. Amlinellodd yr adroddiad y cyd-destun presennol a gofynnodd am farn y Grŵp Llywio.

Ychwanegwyd bod y digwyddiadau hyn yn canolbwyntio naill ai ar weithgarwch chwaraeon (fel marathonaau a thriathlonau) neu ddigwyddiadau her a oedd yn cael eu marchnata tuag at gynulleidfa ehangach a oedd yn canolbwyntio ar godi arian ar gyfer elusennau (e.e. *Macmillan Mighty Hike*). Roedd y digwyddiadau'n tueddu i gael eu hyrwyddo, eu trefnu a'u darparu gan gwmnïau proffesiynol a/neu sefydliadau elusennol.

Tynnwyd sylw at y cyfleoedd i arddangos y dirwedd, ei bywyd gwyllt a'i diwylliant ynghyd â'r cyfleoedd ariannol i fusnesau lleol a'r manteision iechyd a lles i'r rheini sy'n cymryd rhan.

Amlinellwyd yr effeithiau negyddol posib hefyd a chyfeiriwyd at ganllawiau cyhoeddedig y Sefydliad Siartredig Codi Arian ar sut i gynnal digwyddiadau her awyr agored yn y DU. Amlygodd y canllawiau y dylai pobl sy'n codi arian ac elusennau fod yn ymwybodol o'r effaith y mae cynnal y digwyddiadau hyn yn ei chael ar gymunedau lleol, yr isadeiledd a'r amgylchedd a dylid cymryd pob cam rhesymol i leihau'r effaith. Amlygodd ymhellach sut y gallai'r effaith ar breswylwyr lleol, ffyrdd, defnyddwyr eraill, cyfleusterau, llwybrau troed, bywyd gwyllt a'r dirwedd ehangach fod yn niweidiol, a gallai niweidio enw da sefydliad pe bai'r digwyddiad yn methu â chymryd camau i leihau ei effaith.

Trafododd y Grŵp Llywio'r canlynol: -

- Effaith y digwyddiad *Ironman* ar Sioe Gŵyr ym mis Awst 2022;
- Polisiâu Parciau Cenedlaethol/AoHNE sy'n ymdrin â digwyddiadau o'r fath ac effaith/amlder cynyddol y digwyddiadau;
- Y diffyg cydlynu/hysbysu sy'n cael ei ddarparu gan drefnwyr digwyddiadau;
- Diffinio pryd y daw digwyddiadau'n ddigwyddiadau cyfranogi torfol;
- Yr angen am bwynt cofrestru canolog ar gyfer digwyddiadau a monitro sut y trefnwyd digwyddiadau/a oedd cwmnïau wedi dilyn y gweithdrefnau cywir;
- Sut mae rhai digwyddiadau'n cael eu trefnu'n breifat er budd ariannol;
- Trefnwyr yn defnyddio'r Gymdeithas Genedlaethol Codi Arian, y mae ganddi gôd ymddygiad i sefydliadau ei ddilyn;
- Yr angen i ymgynghori â Thîm Digwyddiadau Arbennig Cyngor Abertawe ynglŷn â'r ffordd orau ymlaen;
- Yr angen i gynnal digwyddiadau mewn ffordd amgylcheddol gynaliadwy.

Penderfynwyd nodi cynnwys yr adroddiad/trafodaethau a darparu diweddariad yn y cyfarfod nesaf a drefnwyd.

22 Parc Gwledig Dyffryn Clun.

Cyflwynodd Barbara Parry adroddiad ar Barc Gwledig Dyffryn Clun a oedd yn amlinellu cefndir, nodau, rôl a gwaith Prosiect Cymunedol Dyffryn Clun.

Amlinellwyd bod Prosiect Cymunedol Dyffryn Clun (PCDC) wedi'i sefydlu 10 mlynedd yn ôl er mwyn:

- gwella a chynnal mynediad yn Nyffryn Clun
- diogelu a gwella cynefin naturiol rhywogaethau ac annog a hyrwyddo bioamrywiaeth yn Nyffryn Clun, gan gynnal ôl troed mor fach â phosib
- annog ymchwilio i hanes ac archaeoleg y dyffryn a'u dadansoddi
- hyrwyddo iechyd a lles defnyddwyr Dyffryn Clun
- datblygu ac annog defnydd a mwynhad o Ddyffryn Clun fel adnodd cymunedol ar gyfer gweithgareddau hamdden, dibenion addysgol a gweithgareddau i'r teulu

Mae PCDC yn sefydliad gwirfoddol a chytunodd ar Gytundeb Rheoli gyda Chyngor Abertawe, sy'n berchen ar 700 erw'r Parc Gwledig. Mae PCDC yn ymdrechu i gynnal a rhannu cyfoeth Dyffryn Clun â'r gymuned. Mae'n dasg enfawr:

Dros y misoedd diwethaf:

- Cynhaliwyd arolwg canclwm Japan o'r dyffryn cyfan
- Cliriwyd llystyfiant o Orsaf Mumbles Road
- Cynhaliwyd diwrnod o droeon a gweithgareddau 'Dod i Adnabod y Dyffryn'
- Cwblhawyd sawl digwyddiad casglu sbwriel
- Sathrwyd ar y rhedyn oedd yn amharu ar y coed ffrwythau ym Mherllan Kate
- Tociwyd y planhigyn bachgen llwm
- Gwnaed y gwaith caled o adeiladu 3 pont newydd ar draws afon Clun
- Ailddechreuwyd recordio a chyfweld â phobl leol i'w hychwanegu at ein Harchif Hanes
- Tociwyd sawl llwybr

Ychwanegwyd bod y dyffryn gwyrdd hardd hwn sy'n 3 milltir o ganol Abertawe, wedi bod yn adnodd gwych i lawer o bobl ers tro ac fe'i 'darganfuwyd' gan hyd yn oed mwy o bobl yn ystod cyfyngiadau'r pandemig.

Ers i Adran yr Amgylchedd yng Nghyngor Abertawe gymryd cyfrifoldeb am y Parc Gwledig yn ddiweddar, roedd PCDC wedi gweithio'n agos gyda nhw i gynllunio a gweithredu gwelliannau yn y dyffryn ac roedd y bartneriaeth hon wedi parhau gyda rhagor o ddatblygiadau i ddod. Byddai'r tîm AoHNE yn paratoi Cynllun Rheoli ar gyfer y dyffryn a'r mis hwn rhoddodd Chris Lindley ac Ursula Jones gyflwyniad i aelodau PCDC ar 'Ddyfodol Dyffryn Clun', gan esbonio'r broses yr oeddent yn ei dilyn i lunio Cynllun Rheoli.

Trafododd y Grŵp Llywio'r canlynol: -

- gwaith rhagorol a mewnbwn PCDC;

- yr angen i ddarparu rhagor o adnoddau/cydlynu drwy gyflwyno/gefnogi'r cynllun rheoli er mwyn diogelu'r parc gan ei fod yn ased sylfaenol;
- monitro'r cynllun rheoli gan y Grŵp Llywio yn y dyfodol;
- sut nad yw Parciau'n rheoli'r parc gan ei fod yn cael ei reoli'n hanesyddol gan adran arall o'r cyngor;
- y cyngor/CNC yn cefnogi gwaith y gwirfoddolwyr drwy weithio mewn partneriaeth;
- yr angen i gadw a mwynhau'r parc.

Penderfynwyd nodi cynnwys yr adroddiad.

23 Adroddiad ar yr Adolygiad o Astudiaeth Sensitifrwydd a Chynhwysedd Tirwedd Gwyr ar gyfer Safleoedd Carafanau a Gwersylla 2014.

Cyflwynodd Ruth Henderson, Uwch-swyddog Cynllunio adroddiad 'er gwybodaeth' a ddarparodd adolygiad o Astudiaeth Sensitifrwydd a Chwmpas Tirwedd Gŵyr ar gyfer Carafanau a Safleoedd Gwersylla 2014.

Darparwyd cefndir yr astudiaeth ac amlinellwyd bod yr astudiaeth wedi bod yn offeryn defnyddiol wrth arwain datblygiad twristiaeth newydd i leoliadau llai amlwg lle'r oedd yr effaith andwyol ar y dirwedd a'r morlun dynodedig yn cael ei lleihau.

Ychwanegwyd bod angen diweddarau'r astudiaeth er mwyn adlewyrchu'n gywir effeithiau tirwedd meysydd carafanau a gwersylla, dogfennu unrhyw newidiadau perthnasol i'r dirwedd a monitro unrhyw effeithiau datblygu ers 2014, er mwyn darparu dogfen dystiolaeth gyfredol i gefnogi'r CDLI.

Ar ben hynny, roedd cyflwyno mathau amgen o lety ers astudiaeth 2014 megis podiau, cabanau gwyliau, cynhwysyddion a mathau eraill o ddatblygiad anweithredol yn dod yn llawer mwy poblogaidd fel mathau o lety gwyliau a dylid eu hystyried.

Comisiynwyd *John Champion Associates* gan Gyngor Abertawe i gynnal yr adolygiad, a ariannwyd yn rhannol ag arian grant AoHNE gan CNC. Roedd yr adolygiad yn adeiladu ar yr astudiaeth bresennol a byddai'n cynnwys proses dau gam.

Esboniwyd bod ymweliadau maes wedi'u cynnal ym mis Mawrth ac ym mis Awst 2021 a bod adroddiad Cam 1 rhagarweiniol wedi'i gyflwyno i'r cyngor i'w adolygu ac roedd yr ymgynghorwyr yng nghymau cynnar datblygu Cam 2, y bwriedir iddo gael ei gyflwyno'n gynnar yn 2022. Rhagwelwyd y byddai'r astudiaeth yn cael ei defnyddio fel dogfen sylfaen dystiolaeth er mwyn llywio'r CDLI.

Gwnaeth y Grŵp Llywio sylwadau ar nifer y cytiau, pebyll crwn, pebyll, cytiau bugeiliaid ac estyniadau a oedd wedi'u codi/hadeiladu heb ganiatâd cynllunio a'r angen i barchu'r system. Roedd problemau carthion yn ymwneud â datblygiadau o'r fath hefyd yn achosi problemau ym mhenrhyn Gŵyr. Cyngorwyd y Grŵp Llywio i roi gwybod am problemau o'r fath i orfodi cynllunio.

24 Aelodau Panel y CDC - Adroddiad Ariannol.

Cyflwynodd Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr, adroddiad ariannol cryno y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC) 'er gwybodaeth'.

Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau mai cyllideb y CDC ar gyfer 2021/22 fyddai £100,000.

Roedd 15 o brosiectau wedi'u cymeradwyo, gyda £100,000 wedi'i neilltuo, gan neilltuo'r arian yn llawn ar gyfer 2020/21.

Roedd ffigur y Cronfeydd Neilltuedig yn cynnwys ffi reoli DASA sef £7,500.55.

Cyfanswm yr arian sydd ar gael	£100,000
Cronfeydd Neilltuedig	£100,000
Cronfeydd heb eu neilltuo	£0
Ceisiadau ar waith	£0

25 Newidiadau Arfaethedig i'r Broses Ethol ar gyfer Aelodau Panel y CDC

Rhoddodd Swyddog AoHNE Gŵyr yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp Llywio ynghylch y gwelliannau sy'n cael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru i'r broses o benodi i Banel Grant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

Ychwanegwyd bod y newidiadau wedi'u hanelu at sicrhau bod paneli'n cynnwys demograffeg amrywiol o aelodau, gyda chynrychiolaeth o Bartneriaeth AoHNE.

Er mwyn darparu ar gyfer hyn, byddai'r broses yn cael ei diwygio i benodi aelodau o Banel Grant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy, a Phanel Apeliadau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Er mwyn bodloni canllawiau Llywodraeth Cymru, gofynnir i'r Grŵp Llywio benodi dau aelod o bob panel bob blwyddyn, am gyfnod o ddwy flynedd. Byddai hyn yn galluogi proses benodi dreigl, gan gadw'r sgiliau a ddatblygwyd gan aelodaeth y panel, a hefyd gyflwyno aelodau newydd o'r panel. Byddai cyflwyniadau blynyddol i waith panel grantiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn cael eu darparu fel rhan o'r rhaglen sefydledig o gyfarfodydd.

Gofynnir i'r Grŵp Llywio enwebu aelodau posib o'r panel i'w penodi yng nghyfarfod Grŵp Llywio mis Mawrth 2022.

Nodwyd bod cynghorwyr cyfreithiol y cyngor wedi cadarnhau nad oedd angen newid Cylch Gorchwyl y Bartneriaeth AoHNE er mwyn darparu ar gyfer y gwelliannau.

26 Cynllun Grant Tirwedd a Bioamrywiaeth Arfaethedig

Cyflwynodd Swyddog AoHNE Gŵyr adroddiad 'er gwybodaeth' ynghylch y cynllun grant tirwedd a bioamrywiaeth arfaethedig.

Esboniwyd bod y cynllun grant, sy'n cael ei gynnal fel is-gorff i'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a'i reoli yn lleol ar ran Llywodraeth Cymru, yn anelu at gefnogi amrywiaeth o fentrau gwella tirwedd a bioamrywiaeth yn AoHNE Gŵyr.

Mae'r grant wedi'i anelu at berchnogion tir, cynghorau cymunedol a mannau cymunedol, lle gallai enillion mewn bioamrywiaeth ymgysylltu a bod o fudd i'r rheini sy'n byw yn y gymuned leol. Gallai ffermwyr wneud cais am gyllid ond ni ddylent fod yn derbyn grant amaeth-amgylchedd ar gyfer yr un cynllun. Byddai blaenoriaeth yn

Minutes of the Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr (Dydd Llun, 6 Rhagfyr 2021)
Cont'd

cael ei rhoi i gynlluniau lle gellid dangos y budd mwyaf o ran bioamrywiaeth a budd cymunedol.

Esboniwyd hefyd yr ystod o weithgarwch, cymhwysedd, cyllid a phroses ymgeisio.

Trafododd y Grŵp Llywio'r cyllid penodol sydd ar gael, cynnwys cynlluniau sy'n mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a sut yr oedd gan y cynllun allbynnau gwahanol i gyllid Datblygu Cynaliadwy.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.20 pm

Cadeirydd